

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 9 (24 Ebrill 2018)

Adolygiad o Orchmynion Cyflogau Amaethyddol – dysgu gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn yr Alban

Ystafell Sir Faesyfed, Adeilad Lantra, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd,
Llanfair-ym-Muallt

Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Bryan Godsell – UNITE
Ivan Monckton – UNITE
Darren Williams – FUW
Will Prichard – NFU

Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru
Ryan Davies – Llywodraeth Cymru (dros y ffôn)
Karla Price – Llywodraeth Cymru

Gwesteion

Ken Gray – Gweithrediaeth yr Alban (dros y ffôn) (Eitem 1–3 yn unig)
Louise Stewart – Gweithrediaeth yr Alban (dros y ffôn) (Eitem 1–3 yn unig)

Eitem 1 – Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, yn ogystal â'r gwesteion o Weithrediaeth yr Alban.

Eitem 2 – Cefndir

Rhoddodd y Cadeirydd rywfaint o gefndir i'r adolygiad arfaethedig o'r Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru. Roedd y Panel am symleiddio'r Gorchmyn pryd bynnag yr oedd modd, felly, roeddent yn ystyried awgrym i seilio gorchmynion ar isafswm cyfradd safonol yr awr ar gyfer pob gweithiwr, waeth beth fo ei oedran. Gellid cynyddu'r gyfradd hon yn unol â'r sgiliau sydd eu hangen.

Eitem 3 – Safbwynt yr Alban

Mae'r Gorchmynion yn yr Alban wedi newid yn raddol dros gyfnod o flynyddoedd, a llwyddwyd i wneud hyn drwy lawer o drafodaethau helaeth gan y Bwrdd. Roedd y

sector amaethyddol yn yr Alban yn wahanol iawn gyda llawer o weithwyr dros dro, yn enwedig yn y sector ffrwythau meddal.

Dechreuodd y newid i gyfradd safonol i bawb yn ôl yn 2007, ac roedd bellach awgrym i newid i "Gyflog Byw ar gyfer yr Alban", a fyddai'n cael ei osod yn uwch na lefelau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Byddai hyn yn newid graddol dros nifer o flynyddoedd.

Roedd y Gorchmynion symlach yn haws i gyflogwyr, cyflogeion a gweinyddwyr fel ei gilydd, er bod trafodaeth ynghylch a oedd cyflog a oedd yn seiliedig ar oedran yn hytrach na sgiliau'n haws. Fodd bynnag, o ystyried eu profiad o orfodi, roedd y darpariaethau'n briodol yn y rhan fwyaf o achosion.

Dilynwyd y trosolwg hwn gan sesiwn holi ac ateb a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Prentisiaethau
- Darpariaeth ar gyfer talu goramser
- Anghydfodau rhwng cyflogeion a chyflogwyr/achosion o orfodi
- Cyfradd uwch ar gyfer sgiliau a chymwysterau ychwanegol
- Lwfansau/darpariaethau ychwanegol

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am drafodaeth addysgiadol. Roedd unrhyw gwestiynau eraill i gael eu gofyn drwy Reolwr y Panel.

Eitem 4 – Ystyried y Ffordd Ymlaen

Gwnaeth y Panel gadarnhau unwaith eto eu bod at ei gilydd o blaid symleiddio'r gorchmynion fel bod isafswm cyfradd safonol gyda thâl ychwanegol ar gyfer sgiliau ar wahanol lefelau – byddai'r cyfraddau unigol yn cael eu hystyried a'u trafod ar ôl i'r strwythur ar gyfer y Gorchymyn gael ei derfynu.

Cyflwynodd Undebau'r Ffermwyr bapur a oedd yn cynnig ailfandio'r graddau ar gyfer cyflogau amaethyddol. Roedd y dull hwn yn debyg i ddull Llywodraeth yr Alban, gyda phedair lefel uwch ar gyfer sgiliau ychwanegol wedi'u cynnwys. Croesawodd y Panel hyn, a gofynnwyd i'r holl aelodau ei ystyried yn fanwl cyn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod ym mis Mehefin oedd penderfynu ar y strwythur – gyda'r cyfraddau'n cael eu trafod ym mis Medi.

Wedyn daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.